

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol - Cwestiynau Cyffredin

C. Mae canllaw y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn nodi y rhoddir blaenoriaeth i geisiadau gan brosiectau mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Nid yw fy mhrosiect i mewn ardal clwstwr, a allaf wneud cais o hyd?

A. Gallwch. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ond rydym yn dal i ddisgwyl ariannu'r ceisiadau gorau o brosiectau mewn ardaloedd eraill.

C. Pwy sy'n cael gwneud cais am y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol?

A. Rhaid i geisiadau gael eu harwain gan y gymuned; gall unrhyw grŵp cymunedol sydd wedi'i greu fel cwmni buddiant cymunedol, elusen neu fenter gymdeithasol wneud cais. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, gall awdurdodau lleol o gyn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wneud cais (darllenwch y canllaw). Mae disgwyl i ymgeiswyr weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector. Mae modd i chi wneud cais yn Gymraeg ac yn Saesneg.

C. Beth yw'r grant isaf/uchaf sydd ar gael? A oes modd i mi wneud cais am fwy nag un grant?

A. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; dan £25,000 gydag isafswm o £5,000 a hyd at £250,000 gydag isafswm o £25,001. Gall sefydliadau wneud cais am fwy nag un o grant(iau) y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol (hyd at uchafswm o dri) o fewn tair blynedd. Ni fydd unrhyw sefydliad yn cael mwy na £250,000 mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd.

C. Pa fath o brosiectau y gellir eu hariannu?

A. Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant cyfalaf. Rhaid defnyddio'r grantiau i ariannu gwelliannau ffisegol i gyfleusterau cymunedol. Nid oes modd i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol dalu am gostau refeniw megis cyflogau neu gostau gweithredu eraill.

C. A fydd angen arian cyfatebol arnaf? Os felly, a oes angen isafswm arnaf?

A. Bydd, fe fydd angen arian cyfatebol ar eich prosiect. Nid oes isafswm, ond bydd prosiectau sydd wedi sicrhau arian cyfatebol neu wedi gwneud cais amdano yn sgorio mwy o bwyntiau yn yr asesiad.

C. Faint o amser a gymerir i brosesu fy nghais?

A. Ein nod yw darparu penderfyniad ar ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer ceisiadau dros £25,000 o fewn 30 diwrnod gwaith ac ar gyfer ceisiadau am lai na £25,000 o fewn 60 diwrnod gwaith. Gall hyn newid ar sail faint o geisiadau a ddaw i law. Yn gyffredinol, bydd ceisiadau yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd unwaith y bydd y wybodaeth angenrheidiol i brosesu'r cais yn cael ei derbyn.

C. A allaf wneud cais arall os bydd fy nghais yn aflwyddiannus?

A. Yn sicr - gallwch gyflwyno hyd at dri chais ar gyfer prosiect tebyg. Os caiff eich cais ei wrthod dair gwaith ni fyddwch yn gymwys i gyflwyno cais eto.

C. Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

A. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â ni yn communityfacilitiesproghelp@gov.wales

neu drwy ffonio:

Mike O'Shea 0300 0628612

Debbie Pritchard-Jones 0300 0628781

Lisa Clarridge 0300 0628307